

# Cymru

Pam mae angen camau brys ar fyddardod, tinitws a cholli clyw ar draws Cymru

# Materion Clyw



**ACTION ON  
HEARING  
LOSS**

**CYMRU**

Elusen genedlaethol ers 1911





## Mae 575,500 o bobl yn colli clyw yng Nghymru

Mae hynny'n fwy  
na phoblogaethau  
Caerdydd ac Abertawe  
gyda'i gilydd

# Rhagair



Mae 575,500 o bobl yn colli clyw yng Nghymru - **mae hynny'n fwy na phoblogaethau Caerdydd ac Abertawe gyda'i gilydd.**

Yng Nghymru mae peth cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau bod y bobl hyn yn gallu goresgyn y rhwystrau sydd o'u blaenau - a chymryd rheolaeth ar eu bywydau. Er enghraifft, yn 2013 fe wnaeth Cymru gyflwyno Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau. Roedd hyn yn golygu mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i amlinellu'n glir sut y dylai gwasanaeth GIG ddarparu gwybodaeth mewn ffurfiau hygyrch - a chymorth cyfathrebu - ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau.

Eto i gyd, nid yw'r safonau hyn yn cael yr effaith arfaethedig hyd yma. Mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn dal i adael yr ysbyty yn ansicr faint o feddyginiaeth y maen nhw i fod i'w chymryd neu pa bryd y mae eu hapwyntiad dilyn i fyny. Mae'n ddarlun tebyg i bobl sy'n byw gyda byddardod neu sy'n colli clyw sy'n ceisio canfod gwaith, neu eisiau aros yn eu swydd. Mae ein hymchwil yn dangos bod gormod o bobl yng Nghymru yn dioddef o wahaniaethu wrth iddynt edrych am waith.

Rydym hefyd angen i Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, yn eu cymunedau, trwy glinigau wedi'u harwain gan wirfoddolwyr. Pe bai'r clinigau hyn yn cau, yn ôl y bwriad, yn 2016, bydd 6,000 o bobl wrth risg o broblemau iechyd meddwl ac unigedd. Ac, i bobl â thinitws, nid oes unrhyw lwybr penodol at driniaeth i'w gael o hyd. Mae angen i hyn newid, er mwyn i bobl â thinitws gael y driniaeth y mae ei hangen arnynt.

Dyma ychydig o'r problemau y mae pobl sydd â byddardod, tinitws ac sy'n colli clyw yn eu hwynebu yng Nghymru. Rydym eisiau helpu pobl i fyw'r bywyd y maen nhw'n ei ddewis, trwy oresgyn y rhwystrau sydd o'u blaenau. Rydym angen eich cefnogaeth.

**Richard Williams, Cyfarwyddwr Action on Hearing Loss Cymru**

# Agenda ar gyfer newid

## Pa gamau y mae angen eu cymryd...

### Cymorth a gofal

#### Iechyd cyhoeddus

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mynd i'r afael â cholli clyw a'i gyffredinolrwydd ac effaith cynyddol yn flaenoriaeth genedlaethol.
- Dylai Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU gyflwyno sgrinio clyw i bawb dros 65 yng Nghymru.

#### Gwasanaethau Clyw

- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro perfformiad yn gyson yn erbyn safonau ansawdd a chyhoeddi'r canlyniadau.
- Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol gomisiynu ac ariannu'n gywir gwasanaethau clyw o ansawdd uchel a sicrhau bod pawb a allai elwa o declynnau clyw yn parhau i'w derbyn am ddim ar y GIG.
- Dylai Meddygon Teulu ac awdiolegyddion wella ansawdd eu gwybodaeth a chyflwyno cefnogaeth barhaus, sy'n bodloni anghenion pobl sy'n colli clyw.
- Dylai Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth y sector gwirfoddol. Dylent barhau i ariannu'r clinigau clyw Hear to Help hanfodol a gwasanaethau awdioleg ôl-ofal GIG eraill yn y gymuned ar draws Cymru.

#### Tinitws

- Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Meddygon Teulu a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel, cyson i bobl sy'n dioddef â thinitws.

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol sicrhau bod pawb a all elwa o declynnau clyw yn parhau i'w derbyn am ddim

## Cyfarpar a chefnogaeth

- Dylai Llywodraeth Cymru orfodi gofynion, o dan y ddeddfwriaeth newydd, i ddarparu cyfarpar, a chefnogaeth, i bobl sy'n colli clyw.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dosbarthiadau darllen gwefusau ar gael i bawb a allai elwa ohonynt.

## Technoleg a thriniaethau

- Dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gynyddu'r Gronfa Cefnogaeth Elusennol yn unol â gwariant cynyddol gan elusennau ymchwil.
- Dylai Llywodraeth Cymru feithrin gallu yn ymwneud ag ymchwil clyw, gan ei wneud yn flaenoriaeth strategol i sicrhau bod Cymru yn arweinydd rhyngwladol yn y maes hwn.

## Cydraddoldeb

### Mynediad at iechyd

- Mae angen i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru amlinellu amserlen a chwrdd â therfyn amser ar gyfer gweithredu'n llawn Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau, ar draws yr holl wasanaethau.
- Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ddarparu hyfforddiant ymsefydlu gorfodol ar golli clyw i'r staff i gyd ar bob lefel, gan gynnwys uwch staff.
- Rhaid i Feddygon Teulu ac ysbytai sicrhau bod anghenion cyfathrebu yn cael eu hadnabod, eu cofnodi ac yn bodloni anghenion yr holl gleifion, gan gynnwys diweddarar cofnodion cleifion cyfredol.
- Dylai Byrddau Iechyd Lleol godi ymwybyddiaeth o'r safonau ymhlith pobl gyda nam ar y synhwyrau a sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer adrodd ar bryderon a chwynion pan na fydd anghenion cyfathrebu yn cael eu bodloni.

## Gofal cymdeithasol

- Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i weithio gyda phartneriaid trydydd sector, i sicrhau bod lefel briodol o gefnogaeth ar gael ar draws Cymru ar gyfer pobl fyddar gydag anghenion ychwanegol.
- Dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion cyfathrebu pobl wrth ddyrannu arian ar gyfer cyllidebau personol a sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn ddigon medrus i gynnal asesiadau ar gyfer pobl sy'n fyddar.

## Tai

- Dylai holl landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru gyflwyno cefnogaeth yn unol â'r arweiniad yn ein dogfen arfer gorau, gan gynnwys hyfforddi staff mewn ymwybyddiaeth byddardod a chynghorion cyfathrebu.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru fonitro perfformiad darparwyr tai, i sicrhau eu bod yn cadw at yr arweiniad hwn ac yn bodloni eu dyletswyddau.

## Cyflogaeth

- Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda ni, a phartneriaid megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, i sicrhau bod gan bobl sy'n colli clyw yr un mynediad a chyfleoedd at waith â phawb arall.
- Dylai cyflogwyr ddod yn gyfarwydd â'r wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael i bawb sy'n colli clyw, fel bod modd iddynt ddod yn rhagweithiol wrth gefnogi'n gywir y gweithwyr sy'n dweud wrthynt eu bod yn colli clyw.

## Mynediad at deledu a fideo ar alw

- Mae angen i ddarlledwyr yng Nghymru sicrhau bod isdeitlau ar gael i bobl fyddar neu sy'n colli clyw sy'n siarad Cymraeg a Saesneg.



# Cefnogaeth a Gofal

## Iechyd cyhoeddus

Mae Meddygon Teulu yn methu cyfeirio hyd at

# 45%

o'r rheini sy'n adrodd am golli clyw at wasanaethau clyw GIG

**Mae 575,500 o bobl yng Nghymru yn colli clyw, ac wrth i'r boblogaeth heneiddio<sup>1</sup>, bydd y nifer hwn yn tyfu. Amcangyfrifir bod 71.1% o'r rhai dros 70 yn colli clyw o ryw fath (Davis, 1995). Mae tua un o bob 10 o bobl yng Nghymru hefyd wedi'u heffeithio gan tinitws (Davis, 1989).**

Os nad yw'n cael ei drin, mae colli clyw yn effeithio ar allu pobl i gyfathrebu gydag eraill ac fe all arwain at unigedd cymdeithasol (Gopinath et al, 2012; Pronk et al, 2011) ac iselder (Saito et al, 2010). Ceir tystiolaeth gref o gyswllt rhwng colli clyw a dementia (Lin et al, 2011). Dengys tystiolaeth y gall darparu teclynnau clyw yn amserol ostwng y risgiau hyn a gwella ansawdd bywyd (Mulrow et al, 1990; Deal et al, 2015), ond mae pobl yn aros, ar gyfartaledd, 10 mlynedd cyn ceisio help ac mae Meddygon Teulu yn methu cyfeirio hyd at 45% o bobl at wasanaethau clyw GIG.

### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mynd i'r afael â chyffredinolrwydd ac effaith cynyddol colli clyw yn flaenoriaeth genedlaethol.
- Dylai Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU gyflwyno sgrinio clyw i bawb dros 65 oed, yng Nghymru.

<sup>1</sup> Mae amcangyfrifon o gyffredinolrwydd colli clyw yn yr adran hon wedi'u seilio ar y data cadarnaf a gorau sydd ar gael ar gyfer cyffredinolrwydd ym mhob grŵp oed (Davis, 1995), wedi'u diweddarau gydag amcangyfrifon poblogaeth Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2014 (ONS, 2015), ac wedi'u crynhoi i'r 500 agosaf.

## Gwasanaethau Clyw

Cyflwynwyd safonau ansawdd ar gyfer gwasanaethau awdioleg yng Nghymru yn 2009, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyflwyno i gleifion.

Dim ond

**£25**

y claf y mae  
Hear to Help  
yn ei gostio.  
Bydd ei gau  
yn gadael  
mwy na 6,000  
wrth risg

Mae'n bwysig bod gwasanaethau awdioleg yn cael eu darparu â'r adnoddau angenrheidiol i'w galluogi hwy i gyflwyno gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl o dan y safonau ansawdd - a rhaid monitro ac adrodd ar eu cynnydd.

Mae ein hymchwil Under Pressure (Lowe, 2015) yn dangos bod cleifion yng Nghymru yn wynebu amserau aros cynyddol ar gyfer gwasanaethau awdioleg. Y rheswm dros hyn yw galw cynyddol a phrinder staff. Mae gan ddau Fwrdd Iechyd Lleol, Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, gyfyngiadau ar declynnau clyw dwyochrog. Mae hyn yn golygu, yn groes i arweiniad clinigol, na fydd cleifion yn yr ardaloedd hyn sydd wedi colli clyw yn y ddwy glust bob amser yn derbyn dau declyn clyw.

Mae ôl-ofal da hefyd yn hanfodol i alluogi i bobl addasu ac elwa'n llawn o'u teclynnau clyw. Ar ôl derbyn teclynnau clyw, mae dau draean o bobl (66%) yn profi anawsterau wrth eu defnyddio ac angen cefnogaeth bellach (RNID Cymru, 2009). Mae Action on Hearing Loss yn cynnal clinigau teclynnau clyw am ddim ar draws Cymru sy'n darparu gwybodaeth, cefnogaeth emosiynol ac arweiniad ymarferol ar gyfer pobl sy'n colli clyw, a'u teuluoedd. Ar ôl ymweld â chlinig Hear to Help, dim ond 29% o bobl a oedd yn ei chael hi'n anodd rheoli eu teclynnau clyw (Action on Hearing Loss Cymru, 2014).

Mae ariannu ar gyfer y gwasanaeth Hear to Help yng Nghymru yn dod i ben yn 2016 a bydd yn rhaid i'r gwasanaethau hyn gau, sy'n gadael mwy na 6,000 o bobl wrth risg o unigrwydd ac anawsterau cyfathrebu, unigedd a phroblemau iechyd meddwl.



Bydd hefyd yn rhoi fwy o bwysau ar y GIG - dywedodd 84% o bobl a gefnogodd y gwasanaeth y byddent wedi cysylltu ag awdioleg pe na bai Hear to Help ar gael (Action on Hearing Loss Cymru, 2014).

Dim ond £150,000 y mae'r gwasanaeth yn ei gostio i'w redeg bob blwyddyn, ar draws Cymru gyfan; mae hynny'n llai na £21,500 fesul bwrdd iechyd, neu £25 y claf.

### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n gyson perfformiad yn erbyn safonau ansawdd a chyhoeddi'r canlyniadau.
- Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol gomisiynu ac ariannu gwasanaethau clyw o ansawdd uchel yn gywir a sicrhau bod yr holl bobl a allai elwa o declynnau clyw yn parhau i'w derbyn yn rhad ac am ddim ar y GIG.
- Dylai Meddygon Teulu ac awdiolegyddion wella ansawdd eu gwybodaeth a chyflwyno cefnogaeth barhaus sy'n bodloni anghenion pobl sy'n colli clyw.
- Dylai Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth y sector gwirfoddol. Dylent barhau i ariannu clinigau clyw Hear to Help a gwasanaethau ôl-ofal awdioleg GIG eraill yn y gymuned ar draws Cymru.

## Tinitws

Mae tua un o bob 10 o bobl yng Nghymru wedi'u heffeithio gan tinitws (Davis, 1989). Mae tinitws yn sain atseiniol neu suo yn y glust neu'r pen na ellir ei phriodoli i ffynhonnell allanol. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn gysylltiedig â heneiddio, colli clyw neu gysylltiad â sŵn. Gall hefyd fod yn sgil-effaith i anafiadau i'r glust neu'r pen, clefyd neu heintiau ar y glust ac mae'n gallu cael ei sbarduno gan drawma emosïynol, salwch neu straen sydd fel arfer yn cael ei achosi gan broblem yn y llwybr clywedol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod tinitws yn gysylltiedig ag iselder, a all waethygu canfyddiad y cyflwr (Dobie, 2003).

Nid oes llwybr clir i bobl â thinitws ei ddilyn i gael help. Nid yw Meddygon Teulu bob amser wedi'u cyfarparu â'r wybodaeth briodol i helpu, ac mae gwasanaethau'n amrywio ar draws Cymru.

Canfu ein hymchwil (Action on Hearing Loss, 2015) mai dim ond tri Bwrdd Iechyd Lleol (Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro, ac Aneurin Bevan) sy'n cynnig mynediad at therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT), sef un o'r triniaethau tinitws mwyaf effeithiol sydd ar gael ac sy'n cael eu hargymell gan yr Adran Iechyd.

Canfu'r ymchwil hwn hefyd bod dau Fwrdd Iechyd Lleol (Betsi Cadwaladr a Hywel Dda) wedi gostwng eu gwasanaethau tinitws yn ddiweddar.

### Pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd...

- Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Meddygon Teulu a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel, cyson ar gyfer phobl sy'n dioddef â thinitws.

Ar ôl mis arbennig o brysur yn y gwaith, fe wnes i ddatblygu sŵn suo uchel yn fy nghlustiau. Roeddwn i'n gwybod fy mod o dan lawer o straen, ac nad oeddwn yn cysgu'n dda, ond roeddwn i'n siŵr ar ôl noson gynnar, byddai'r sŵn yn diflannu. Ni ddigwyddodd hynny - ac mae'r sŵn yn parhau.

Gan fy mod yn poeni bod fy nerfau yn chwalu, mi es i weld fy Meddyg Teulu. Yn ffodus, roedd yn deall tinitws ac fe gyfeiriodd mi at yr adran awdioleg am brofion pellach. Fe wnaeth yr awdiolegydd ddiagnosis byddardod ysgafn, a hynny'n waeth oherwydd y tinitws. Roedd yn agored iawn: "Nid oes modd gwella tinitws. Bydd yn rhaid i chi ganfod ffordd o fyw ag e".

Fe wnaeth fy Meddyg Teulu fy nghyfeirio at therapi gwybyddol ymddygiadol, a oedd yn rhyfeddol, ac a helpodd fi i ddysgu ffyrdd newydd o reoli fy mhryder a'r pyliau panic. Mae tinitws pawb yn wahanol, felly bydd ffordd bawb o ymdopi yn wahanol hefyd. I mi, mae'n gymysgedd o feddyginiaeth, gweithio llai, ymarfer llai a defnyddio synau sy'n tynnu oddi wrth y tinitws.

Pum mlynedd yn ddiweddarach, nid yw'r synau erioed wedi stopio. Dydych chi byth yn dod i arfer ag e, na'n stopio dymuno am dawelwch ond gyda phenderfyniad gallwch fyw'n dda gyda thinitws ond mae'n cymryd llawer o gryfder a gwn ei fod wedi gostwng yn eithriadol ar ansawdd bywyd rhai a bod pob dydd yn ymdrech iddynt.

Bev Frowen, 56, Rhondda Cynon Taf



## Cyfarpar a chefnogaeth

O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth a chyfarpar i bobl sy'n colli clyw. Mae'r hyn sydd ar gael yn amrywio, ond fe all gynnwys cyfarpar i'r cartref, grwpiau cymorth, cwnsela, cyngor ar gyllid a budd-daliadau, dehongliad laith Arwyddion Prydain, a gwasanaethau eiriolaeth.

Canfu ein hadroddiad ymchwil *Life Support* (Calton, 2012) bod yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, a ymatebodd i'n harolwg, yn darparu gwaith cymdeithasol a chymorth cymdeithasol, cyfarpar, therapi galwedigaethol a chynghor, ond nid oedd saith awdurdod lleol (12%) yn darparu cymorth deongliadol hanfodol.

Rydym eisiau i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu gwasanaethau adferiad o ansawdd uchel i bobl sy'n colli eu clyw. Er enghraifft, mae dosbarthiadau darllen gwefusau yn hanfodol - maen nhw'n dysgu pobl i adnabod siapiau a phatrymau gwefusau, ac yn eu helpu i wneud synnwyr o sgysiau.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ariannu hyfforddiant i 12 o diwtoriaid darllen gwefusau newydd i gynyddu mynediad a chynyddu nifer y dosbarthiadau darllen gwefusau, ond nid yw awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn comisiynu eu gwasanaethau.

### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Dylai Llywodraeth Cymru orfodi gofynion, o dan ddeddfwriaeth newydd, i ddarparu cyfarpar a chefnogaeth i bobl sy'n colli clyw.
- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dosbarthiadau darllen gwefusau i'r rheini a fyddai'n elwa

# Technoleg a thriniaethau

Dengys tystiolaeth bod Cymru, y pen o'r boblogaeth, yn denu llai o ariannu ymchwil gan elusennau a chynghorau ymchwil na'r Alban a Lloegr.

Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ymchwilio i ganfyddiad lleferydd mewn digwyddiadau gyda lefelau uchel o sŵn cefndir, megis partion a digwyddiadau cymdeithasol eraill. Gobeithiwn y bydd yr ymchwil hwn yn arwain at acwstig gwell mewn ystafelloedd a gwelliant yng nghynllun teclynnau clyw a mewnbaniadau yn y cochlea.

Dylai'r arbenigedd hwn gael ei ddefnyddio i ddenu buddsoddiad pellach - a sicrhau bod Cymru yn arweinydd rhyngwladol mewn ymchwil sŵn cefndir.

## Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gynyddu'r Gronfa Cymorth Elusennol yn unol â'r gwariant cynyddol gan elusennau ymchwil.
- Dylai Llywodraeth Cymru feithrin gallu yn ymwneud ag ymchwil clyw, gan ei wneud yn flaenoriaeth strategol i sicrhau bod Cymru yn arweinydd rhyngwladol yn y maes hwn.

# Cydraddoldeb

## Mynediad at iechyd

Nid yw  
**9 o bob 10**  
claf wedi  
gweld unrhyw  
welliannau  
yn y ffordd y  
mae ysbytai a  
Meddygon Teulu  
yn cyfathrebu  
ac yn rhannu  
gwybodaeth

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno safonau ar gyfer gwybodaeth hygyrch (GIG Cymru, 2013).

Mae Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau yn rhoi arweiniad clir ar yr hyn y dylai Meddygon Teulu ac ysbytai ei wneud i sicrhau bod eu gwasanaethau yn fwy hygyrch i bobl sy'n colli clyw ac yn colli golwg. Mae'n anelu at sicrhau bod modd i bobl â nam ar y synhwyrau ddeall y wybodaeth iechyd a roddir; a bod ganddynt fynediad at ddehonglydd BSL cymwys, neu ffurfiau eraill o gefnogaeth cyfathrebu, yn ystod apwyntiadau GIG.

Er mawr siom, mae cleifion sydd â nam ar y synhwyrau yn dweud wrthym nad ydynt yn gweld yr hygyrchedd cynyddol yn ôl yr addewid (Action on Hearing Loss et al, 2014). Mae llawer o bobl sy'n colli clyw yn dal i wynebu rhwystrau diangen mewn ysbytai a meddygfeydd meddygon teulu.

### Stori Claf A

Mi ges i llawdriniaeth. Fe ofynnais am ddehonglydd [laith Arwyddion Prydain]; nid oedd y staff yn gwybod sut i archebu un... Yn y pendraw fe wnaethant ddweud y byddai nyrn yn bresennol ar gyfer fy nerbyn a'r llawdriniaeth. Pan gefais fy nerbyn a chael llawdriniaeth, nid oedd y nyrn yno. Fe arwyddais ffurflenni caniatâd y llawdriniaeth heb ddeall y jargon meddygol a oedd arnynt. Ni allwn ddeall y llawfeddygon cyn nac ar ôl y llawdriniaeth.



Nid oedd tua 9 o bob 10 (91%) yn ymwybodol o unrhyw welliannau yn y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth ers i'r safon gael ei chyflwyno.

Dim ond un o bob pump (20%) o gleifion a ddywedodd bod rhywun wedi gofyn iddynt am eu hanghenion cyfathrebu a gwybodaeth, ac nid oedd tua hanner (58%) yn gwybod sut i adrodd ar bryder neu gŵyn.

### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Mae angen i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru amlinellu amserlen a bodloni terfyn amser ar gyfer gweithredu'n llawn Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau ar draws bob gwasanaeth.
- Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ddarparu hyfforddiant ymsefydlu gorfodol ar nam ar y synhwyrau i'r staff i gyd ar bob lefel, gan gynnwys uwch staff.
- Rhaid i Feddygon Teulu ac ysbytai sicrhau bod anghenion cyfathrebu yn cael eu hadnabod, eu cofnodi ac yn bodloni anghenion yr holl gleifion, gan gynnwys diweddarau cofnodion cleifion cyfredol.
- Dylai Byrddau Iechyd Lleol godi ymwybyddiaeth o'r safonau ymhlith pobl â nam ar eu synhwyrau a sicrhau bod gweithdrefnau cadarn wedi'u gosod ar gyfer adrodd ar bryderon a chwynion pan nad yw anghenion cyfathrebu yn cael eu bodloni.

## Gofal Cymdeithasol

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu i lawer o bobl hŷn, ond hefyd ar gyfer oedolion oed gweithio a phlant sy'n colli clyw, a ffurfiau eraill ar nam ar y synhwyrau, anabledau dysgu, problemau iechyd meddwl a chyflyrau hirdymor. Yn ein hymchwil Life Support (Calton, 2012) fe welsom nad yw anghenion cyfathrebu yn cael eu hystyried yn y systemau a ddefnyddir i bennu cyllideb gofal cymdeithasol unigolion gyda thraean o awdurdodau lleol (33%) yng Nghymru. Fe wnaethom ganfod hefyd nad oedd tri chwarter (75%) o awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu rhif ffôn testun na gwasanaeth ffôn arbennig i bobl sy'n colli clyw.

Rydym yn croesawu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ar i awdurdodau lleol hyrwyddo lles defnyddwyr gofal cymdeithasol, asesu anghenion a chynnwys pobl mewn trafodaethau am eu gofal. Mae'n hanfodol bod gan staff gofal cymdeithasol y wybodaeth a'r sgiliau cyfathrebu cywir i fodloni anghenion pobl sy'n colli clyw. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd hefyd i ddarparu cymorth eiriolaeth yn ôl yr angen, ond canfu ein hymchwil Life Support nad oedd chwarter (25%) yn darparu cymorth eiriolaeth i bobl sy'n colli clyw. Rhaid i wasanaethau eiriolaeth fod yn gwbl hygyrch i bobl sy'n fyddar. Rydym eisiau i Lywodraeth Cymru ymrwymo i weithio gyda phartneriaid trydydd sector i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i fodloni anghenion pobl sy'n fyddar.

### 3 o bob 4

awdurdod lleol yng Nghymru ddim yn darparu rhif ffôn testun na gwasanaeth ffôn arbennig i bobl sy'n colli clyw

#### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i weithio gyda phartneriaid trydydd sector i sicrhau bod lefel briodol o gefnogaeth ar gael ar draws Cymru i bobl fyddar gydag anghenion ychwanegol.
- Dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion cyfathrebu pobl wrth ddyrannu arian ar gyfer cyllidebau personol a sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn briodol fedrus i gynnal asesiadau ar gyfer pobl sy'n fyddar.

## Tai

Mae tai yn chwarae rôl sylfaenol ym mywyd pawb. Mae ein cartrefi a'r cymunedau y maen nhw wedi'u lleoli ynddynt yn dylanwadu yn uniongyrchol ar ein mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau iechyd ac addysg, ynghyd â'n gallu i gymryd rhan yn y gymuned leol.

Yn ystod 2014/15 fe wnaethom gasglu straeon a phrofiadau personol gan bobl â nam ar y synhwyrau a oedd wedi defnyddio gwasanaethau tai yng Nghymru.

Fe wnaethom ddefnyddio hyn i lunio arweiniad arfer gorau sy'n argymhell y dylai gwasanaethau tai ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod i staff tai, gosod a chynnal dolenni clyw mewn llety, ac ystyried effeithiau sain cefndir wrth ddyrannu tenantiaethau (Action on Hearing Loss Cymru, 2015).

Bydd yr arweiniad hwn yn helpu gwasanaethau tai i fodloni'u dyletswyddau o dan Safon Ansawdd Tai Cymru (Llywodraeth Cymru, 2008) a'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai Cymru (Llywodraeth Cymru, 2011) i ddarparu tai o ansawdd da, sy'n bodloni gofynion penodol y cartref.

### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Dylai holl landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru gyflwyno cefnogaeth yn unol â'r arweiniad yn ein dogfen arfer gorau, gan gynnwys hyfforddi staff mewn ymwybyddiaeth byddardod a chynghorion cyfathrebu.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru fonitro perfformiad darparwyr tai, i sicrhau eu bod yn cadw at yr arweiniad hwn ac yn bodloni eu dyletswyddau.



Does neb eisiau cyflogi person byddar. Hyd yn oed yn y swyddi isaf. Doeddwn i byth yn cael cyfweiliadau. Doeddwn i byth yn clywed yn ôl. Fe wnes i ddilyn y peth i fyny gydag un sefydliad a gofynnais, 'Pam nad ydw i wedi cael cyfweiliad?' A'r ateb oedd, 'Wel, rydych chi'n fyddar, fyddech chi byth yn gallu ymdopi.'

Felly mi fues i'n glanhau am ddwy neu dair blynedd - dyna'r unig beth y gallwn ei wneud. Doeddwn i ddim yn ei hoffi ryw lawer ond roeddwn yn ei wneud achos fy mod i angen gweithio. Roedd yn galed iawn ac yn dorcalonnu. Y teimlad hwnnw nad oes unrhyw un eich eisiau chi. A'r teimlad hwnnw nad ydych chi'n gallu cyfrannu at unrhyw beth.

Yn y pendraw fe es yn ôl i astudio yn y Brifysgol Agored a chlywed am gynllun llywodraeth sydd bellach wedi dod i ben a oedd yn ariannu cwmni theatr i ddyfeisio perfformiadau ar gyfer plant byddar.

Dyna oedd dechrau ar yrfa hir yn y celfyddydau a bellach rwy'n gyfarwyddwr strategol ar Gelfyddydau Anabledl Cymru. Ond nid yw pawb mor ffodus â mi.

Maggie Hampton, 64, Pontypridd

Rhaid i  
Lywodraeth  
Cymru sicrhau  
bod gan bobl  
sy'n colli clyw  
yr un mynediad  
a chyfleoedd at  
waith â phawb  
arall

## Cyflogaeth

Canfu adroddiad y gwnaethom ei gomisiynu (Boyce, 2015) bod pobl sy'n colli clyw yng Nghymru yn wynebu rhwystrau difrifol at gyflogaeth oherwydd agweddau cyflogwyr a chefnogaeth annigonol yn y gweithle. Canfu'r adroddiad hefyd nad oedd rhai staff Canolfannau Gwaith yn darparu cefnogaeth arbenigol i bobl sy'n colli clyw ac nid oeddynt yn ymwybodol o'u hanghenion cyfathrebu.

Mae Action on Hearing Loss yn bwriadu lansio ymgyrch i wella agweddau cyflogwyr tuag at weithwyr gyda byddardod, tinitws ac sy'n colli clyw. Mae angen camau brys hefyd o fewn llywodraethau'r DU a Chymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Canolfannau Gwaith ac asiantaethau cyflogaeth, i sicrhau bod pobl sy'n colli clyw yn cael eu cefnogi yn y gweithle.

### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda ni, a phartneriaid megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, i sicrhau bod gan bobl sy'n colli clyw yr un mynediad a chyfleoedd at waith â phawb arall.
- Dylai cyflogwyr ddod yn gyfarwydd â gwybodaeth ac adnoddau sydd ar gael i bobl sy'n colli clyw, er mwyn iddynt fod yn rhagweithiol wrth gefnogi'n gywir y gweithwyr sy'n dweud wrthynt eu bod yn colli clyw.

## Mynediad at deledu a fideo ar alw

Mae gwasanaethau teledu ar gyfer pobl sy'n colli clyw wedi gwella'n helaeth yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Ond mae llawer o raglenni yn parhau yn anhygyrch oherwydd diffyg isdeitlau neu ddehongliad arwyddo, isdeitlau o ansawdd gwael neu leferydd anhyglyw.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o isdeitlau ar draws y DU ar gael yn Saesneg yn unig. Serch hynny, yng Nghymru mae S4C yn darparu isdeitlau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn 2014, roedd 78% o raglenni S4C wedi'u hisdeitlo, er nid yw'r dadansoddiad rhwng isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn amodol ar dargedau Ofcom (Ofcom, 2014). Mae isdeitlau Cymraeg ar gael ar rai rhaglenni, ond mae mwyafrif yr isdeitlau yn Saesneg.

Mae ymchwil yn awgrymu (Wu et al, 2014) y byddai rhai pobl sy'n colli clyw yng Nghymru yn hoffi cael mwy o isdeitlau ar gael yn y Gymraeg.

Rydym yn annog y darlledwyr i gyd i fonitro ansawdd eu hisdeitlo er mwyn sicrhau safonau uchel. Mae angen datblygu technoleg ymhellach yn y maes hwn er mwyn gostwng camgymeriadau a darparu dewisiadau ar gyfer dewis iaith.

Mae llawer o raglenni teledu yn parhau yn anhygyrch oherwydd diffyg isdeitlau neu ddehongliad arwyddo

### Pa gamau y mae angen eu cymryd...

- Mae angen i ddarlledwyr yng Nghymru sicrhau bod isdeitlau ar gael i siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n fyddar neu sy'n colli clyw.



# Cyfeiriadau

Action on Hearing Loss, 2015. *Tinnitus service provision across the UK: a research brief*. Llundain: Action on Hearing Loss.

Action on Hearing Loss Cymru, RNIB Wales a Sense Cymru, 2014. *One year on: the all Wales standards for communication and information for people with sensory loss*. Ar-lein. Ar gael o: [www.rnib.org.uk/dignity-blind-and-partially-sighted-people-still-not-respected-health-service-wales](http://www.rnib.org.uk/dignity-blind-and-partially-sighted-people-still-not-respected-health-service-wales) Mynediad 2 Gorffennaf 2015.

Action on Hearing Loss Cymru, 2014. *Arolwg defnyddwyr Hear to help*. Caerdydd: Action on Hearing Loss Cymru.

Action on Hearing Loss Cymru, 2015. *Supporting People with Sensory Loss: Best practice guide for housing providers*. Caerdydd: Action on Hearing Loss Cymru.

Boyce T, 2015. *Able, Ready to Work...and Deaf*. Caerdydd: Action on Hearing Loss Cymru.

Calton R, 2012. *Life Support*. Llundain: Action on Hearing Loss.

Davis AC, 1989. The prevalence of hearing impairment and reported hearing disability among adults in Great Britain. *International Journal of Epidemiology*, 18, 911-17.

Davis AC, 1995. *Hearing in Adults*. Llundain: Whurr.

Davis AC, Smith P, Ferguson M, Stephens D, and Gianopoulos I, 2007. Acceptability, benefit and costs of early screening for hearing disability: a study of potential screening tests and models. *Health Technology Assessment*, 2 (42).

Deal JA, Sharrett AR, Albert MS, Coresh J, Mosley TH, Knopman D, Wruck LM and Lin FR, 2015. Hearing impairment and cognitive decline: A pilot study conducted within the atherosclerosis risk in communities neurocognitive study. *American Journal of Epidemiology*, 181 (9), 680-90.




Dobie RA, 2003. Depression and tinnitus. *Otolaryngologic Clinics*, 36 (2), 383-88.

Gopinath B, Hickson L, Schneider J, McMahon CM, Burlutsky G, Leeder SR and Mitchell P, 2012. Hearing-impaired adults are at increased risk of experiencing emotional distress and social engagement restrictions five years later. *Age and Ageing*, 41 (5), 618-62.

Lin FR, Metter J, O'Brien RJ, Resnick SM, Zonderman AB and Ferrucci L, 2011. Hearing loss and incident dementia. *Archives of Neurology*, 68 (2), 214-20.

Lowe C, 2015. *Under Pressure*. London: Action Hearing Loss

- Mulrow CD, Tuley MR and Aguilar C, 1992. Sustained benefits of hearing aids. *Journal of Speech and Hearing Research*, 35 (6), 1402-5
- GIG Cymru, 2013. *Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau*. Caerdydd: GIG Cymru.
- Ofcom, 2014. *Television access report*. Llundain: Ofcom.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), 2015. *Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, canol-2014*. Ar gael yn: [www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-368259](http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-368259) Mynediad 2 Gorffennaf 2015.
- Pronk M, Deeg DJ, Smits C, van Tilburg TG, Kuik DJ, Festen JM and Kramer SE, 2011. Prospective effects of hearing status on loneliness and depression in older persons: identification of subgroups. *International Journal of Audiology*, 50 (12), 887-96.
- RNID Cymru, 2009. *Out of the drawer*. Caerdydd: RNID Cymru.
- Saito H, Nishiwaki Y, Michikawa T, Kikuchi Y, Mizutani K, Takebayashi T and Ogawa, K Saito et al, (2010). Hearing handicap predicts the development of depressive symptoms after three years in older community-dwelling Japanese. *Journal of the American Geriatrics Society*, 58 (1), 93-7.
- Llywodraeth Cymru, 2008. *Safon Ansawdd Tai Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2011. *Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd Wedi'u Cofrestru yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Wu Y, Price E and Evans L, 2014. *Digital Television and Deaf/Hard of Hearing Audiences in Wales*. Abertawe: Sefydliad Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe.



Mae  
**575,500**  
 o bobl yn  
 colli clyw

**Un o bob chwech ohonom**

Ein diben yw helpu pobl sy'n wynebu byddardod, tinitws ac sy'n colli clyw i fyw'r bywyd y maen nhw'n ei ddewis. Rydym yn eu galluogi i gymryd rheolaeth a goresgyn rhwystrau sydd o'u blaenau.

Am ragor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut y gallwch chi ein cefnogi ni, ewch i [www.actiononhearingloss.org.uk/wales](http://www.actiononhearingloss.org.uk/wales)

## Action on Hearing Loss Cymru

Ffôn 02920 333 034

Ffôn testun 02920 333 036

E-bost [cymru@hearingloss.org.uk](mailto:cymru@hearingloss.org.uk)

## Ymunwch a ni

 [www.facebook.com/actiononhearinglosscymru](http://www.facebook.com/actiononhearinglosscymru)

 [www.twitter.com/hearinglosscym](http://www.twitter.com/hearinglosscym)

Ar y clawr: Maggie o Bontypridd.  
Mae Maggie yn rhannu'i stori ar dudalen 18.



MEWN PARTNERIAETH Â



Mae'n bleser gan Boots Hearingcare gefnogi cyhoeddi'r adroddiad pwysig hwn